Bwyd a Diod Cymru Rhwydwaith Clwstwr

Food & Drink Wales Cluster Network

Mae Rhwydwaith Clwstwr Bwyd a Diod Cymru yn dod â chyflenwyr, academyddion a'r llywodraeth at ei gilydd gyda'r nod allweddol o helpu busnesau i sicrhau twf cyflymach mewn gwerthiant, elw a chyflogaeth.

Bwyd a Diod Cymru Rhwydwaith Clwstwr

Food & Drink Wales Cluster Network

Mae Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda'r sectorau bwyd a diod, wedi rhoi nifer o Grwpiau Clwstwr ynghyd yn strategol - Clwstwr CEO, Clwstwr Diodydd, Clwstwr Allforio, Clwstwr Bwydydd Da, Clwstwr Mêl, Clwstwr Nutri-Wales, a'r Clwstwr Bwyd Môr.

Datblygwyd y clystyrau hyn i fanteisio ar dwf economaidd i'r eithaf yng Nghymru, yn ogystal ag ymateb i sectorau oedd angen cymorth uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Maen nhw'n dwyn ynghyd pobl o'r un anian, gyda'r prif amcan o helpu busnesau i gyflawni twf cyflym o ran gwerthiannau, elw a chyflogaeth. Mae'r clystyrau'n uchelgeisiol a byddant yn cyflawni newid gwirioneddol mewn camau yn hytrach na thwf cynyddol.

Bydd clystyrau yn cynnig cymorth a chyngor i chi, ac yn eich galluogi i ddatblygu cyfleoedd i weithio gyda chyflenwyr eraill, gan gynnwys datrysiadau o'r naill a'r llall i oresgyn y rhwystrau rhag twf, ac i fanteisio ar gyfleoedd masnachol, yn ogystal â helpu i ddatblygu eich capasiti a'ch gallu.

llyw.cymru/bwydadiodcymru
@bwydadiodcymru

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Bwyd a Diod Cymru
Clwstwr Prif Weithredwr
Food & Drink Wales
CEO Cluster

Cefndir

Mae'r Clwstwr CEO wedi'i lansio fel rhan o raglen datblygu clystyrau Llywodraeth Cymru. Yn ôl yr Athro Michael E. Porter o Ysgol Fusnes Harvard: "Mae clwstwr o gwmnïau a sefydliadau annibynnol, wedi'u cysylltu'n ffurfiol yn cynrychioli ffurf sefydliad cadarn sy'n cynnig manteision o ran effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a hyblygrwydd." Mae'n debyg mai Silicon Valley yng Nghaliffornia yw'r enghraifft fwyaf llwyddiannus o glwstwr diwydiant.

Cwmpas y Clwstwr

Amcanion allweddol y clwstwr yw helpu busnesau i gyflawni twf cyflym o ran gwerthiannau, elw a nifer o staff.

Bydd y clwstwr hwn yn apelio at gwmnïau sydd â thargedau twf uchelgeisiol. Gallai'r twf hwn gael ei lywio gan gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys arloesi, sianelau gwerthu newydd a datblygu cynnyrch newydd, a gall ein gwaith ategu'r rhain i gyd.

Arloesi Bwyd Cymru sy'n arwain y clwstwr hwn ac mae'n cynnig adnodd unigryw ar gyfer y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru.

Gweithgareddau Clwstwr

Bydd cwmnïau yn elwa o gydweithio â chwmnïau eraill ac o gefnogaeth a ddarperir gan Arloesi Bwyd Cymru a Llywodraeth Cymru.

Bydd y fenter yn defnyddio nifer o ffurfiau a gallai gynnwys:

- Rhannu adnoddau (e.e. offer)
- Cyd-fentrau gwerthu (e.e. cydweithredu i gamu i farchnad allforio newydd)
- Mynediad at gipolygon marchnad (e.e. ymchwil i'r farchnad)
- Mynediad at wybodaeth clwstwr (e.e. Arbenigedd Arloesi Bwyd Cymru)
- Rhannu profiadau a gwersi a ddysgwyd.

Cysylltwch â ni

Am ragor o wybodaeth am y clwstwr hwn cysylltwch ac arweinydd y clwstwr:

Cyswllt Canolbarth Cymru - Arwyn Davies
arwyn.davies@ceredigion.gov.uk
01559 362230

Cyswllt Gogledd Cymru - Paul Roberts
paul.roberts@gllm.ac.uk
01248 383345

Cyswllt De Cymru - Martin Sutherland
msutherland@cardiffmet.ac.uk
02920 416228

Bwyd a Diod Cymru
Clwstwr Diodydd
Food & Drink Wales
Drinks Cluster

Cefndir

Mae'r diwydiant diodydd yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru, gyda throsiant o dros £800m, gwerth gwerthiannau adwerthu yng Nghymru o dros £950m ac yn cyflogi 1,200 o bobl.

Mae'r diwydiant diodydd yng Nghymru yn eang a chymhleth gydag is-sectorau amrywiol gan gynnwys cwrw, seidr, gwin, gwirodydd, dŵr potel, diodydd meddal, sudd ffrwythau, diodydd poeth, diodydd llaeth a diodydd nad ydynt yn cynnwys llaeth. Mae maint a graddfa cwmni yn amrywio o gwmnïau micro i gwmnïau rhyngwladol mawr.

Cwmpas y Clwstwr

Mae busnesau o bob un o'r is-sectorau diodydd yn dod ynghyd o dan ymbarél y Clwstwr Diodydd i ffurfio Grwpiau Diddordeb Arbennig (SIG) a gweithio ar y cyd ar draws y prosiectau strategol. Mae gan bob Grŵp Diddordeb Arbennig hunaniaeth a strategaeth farchnata wedi'i deilwra i anghenion a sefyllfa pob sector. Y pedwar Grŵp Diddordeb Arbennig yw:

- Cwrw a seidr
- Gwin a gwirodydd
- Dŵr a diodydd meddal
- Diodydd poeth, diodydd llaeth, diodydd nad ydynt yn cynnwys llaeth a datblygiadau arloesol, diodydd sy'n newydd-ddyfodiaid.

Gweithgareddau Clwstwr

Er bod y Grwpiau Diddordeb Arbennig yn nodi camau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau eu sectorau eu hunain, mae rhai camau gweithredu cyffredinol y bydd y Clwstwr Diodydd yn eu rhoi ar waith, fel:

- Galluogi a chynyddu arloesi i gynhyrchu diodydd unigryw o ansawdd
- Cefnogi datblygu busnesau diodydd
- Adeiladu brandiau Cymreig gartref a thramor
- Gwella sgiliau a gwybodaeth ar draws y diwydiant i wella arloesedd ac ansawdd.

Cysylltwch â ni

Am ragor o wybodaeth am y clwstwr hwn cysylltwch ac arweinydd y clwstwr:

Mark Grant
mark.grant@levercliff.co.uk
07734 911340

Bwyd a Diod Cymru
Clwb Allforio

Food & Drink Wales
Export Club

Cefndir

Gall allforio drawsnewid eich busnes, gyda manteision posibl yn cynnwys mwy o werthiannau ac elw; yn ogystal ag annog creadigrwydd ac arloesedd; a chynyddu effeithlonrwydd.

Yn 2017, allforiodd Cymru werth £527.4m o fwyd a diod, oedd 21% yn uwch na 2016 gyda'r UE, y Dwyrain Canol, Gogledd America ac Asia ymhlith y 7 prif farchnad. Mae'r twf cryf yn adlewyrchu ansawdd uchel bwyd a diod a gynigir gan gynhyrchwyr o Gymru.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru sefydlu'r Clwb Allforio i ddwyn cwmnïau o'r un anian ynghyd er mwyn helpu i oresgyn rhai o'r rhwystrau i allforio.

Cwmpas y Clwstwr

Mae'r Clwb Allforio yn cynnig fforwm unigryw i gwmnïau bwyd a diod ddysgu, rhannu profiadau a gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu allforio cynaliadwy a phroffidiol. Mae ein haelodaeth bellach yn cynnwys bron i 50 o gwmnïau bwyd a diod, sy'n amrywio o allforwyr sefydledig mawr i fusnesau bach sy'n dechrau ar eu taith allforio.

Os oes gennych uchelgais glir i ddatblygu eich gallu i allforio gall y Clwb Allforio eich helpu ar eich taith i droi eich uchelgais yn realiti.

Gweithgareddau Clwstwr

P'un a ydych chi'n allforwyr newydd neu wedi hen arfer, bydd aelodau'n elwa ar:

- Desg gymorth dechnegol pwrpasol i'r Clwb Allforio
- Rhaglen o ddigwyddiadau o ansawdd uchel gydag arbenigwyr yn y diwydiant
- Adnoddau i helpu aelodau i fynd i'r afael â heriau allforio
- Mynediad i rwydwaith o gefnogaeth arbenigol i'ch tywys drwy'r broses allforio
- Cydweithredu gydag aelodau eraill y clwb ar gyfleoedd o fudd i bawb
- Mynediad i ystod ehangach o raglenni cymorth allforio.

Cysylltwch â ni

Am ragor o wybodaeth am y clwstwr hwn cysylltwch ac arweinydd y clwstwr:

Mark Hughes
mark.hughes2@gov.wales
07881 379107

Bwyd a Diod Cymru
Clwstwr Bwyd Da
Food & Drink Wales
Fine Food Cluster

Cefndir

Mae'r Clwstwr Bwyd Da yn cynnig llwyfan ar gyfer gweithredu ar y cyd i nodi a datrys problemau cyffredin. Mae hwn yn dwyn amrywiaeth o gynhyrchwyr bwyd a diod ynghyd, sydd â chynhyrchion o ansawdd uchel ac sy'n awyddus i ddatblygu ochr yn ochr â phartneriaid masnachol, y llywodraeth a phartneriaid academaidd.

Cwmpas y Clwstwr

Mae'r clwstwr yn rhoi cyngor i gwmnïau oresgyn rhwystrau i dwf. Mae'n helpu i ddatblygu gwybodaeth a darparu cyfleoedd i weithio gyda busnesau eraill i oresgyn y rhwystrau i dwf ac i fanteisio ar gyfleoedd masnachol. Wedi'i anelu at ddatblygu busnesau bwyd a diod sydd eisiau datblygu eu capasiti, mae ein rhaglen yn cynnwys:

- Clwstwr o gwmnïau bwyd a diod da gyda phrosiectau ar gyfleoedd datblygu allweddol
- Rheolwr clwstwr i'ch helpu i ddatblygu datrysiadau i oresgyn rhwystrau i dwf
- Defnyddio dull o ddarparu fframwaith ar gyfer arloesi sy'n cynnwys sefydliadau academaidd, cwmnïau, y llywodraeth ac amrywiaeth o randdeiliaid i feithrin gwelliannau yn y sylfaen wybodaeth a'r ddealltwriaeth am gyfleoedd busnes, gan atgyfnerthu arloesi ac arwain at dwf cynaliadwy
- Mentora arbenigol wedi'i deilwra.

Gweithgareddau Clwstwr

- Cyfnewid gwybodaeth rhwng cymheiriaid
- Digwyddiadau a gweithdai
- Cydweithredu mewn gweithgareddau masnachol
- Rhannu costau / adnoddau
- Busnesau sector preifat yn llywio'r agenda ymchwil
- Deall a mynd i mewn i farchnadoedd newydd
- Mynediad i ymchwil o'r radd flaenaf
- Treialu darpariaeth gwasanaeth newydd sy'n seiliedig ar nodi anghenion busnes.

Cysylltwch â ni

Am ragor o wybodaeth am y clwstwr hwn cysylltwch ac arweinydd y clwstwr:

Sioned Best
finefoodanddrinkwalescluster@menterabusnes.co.uk
01938 530530

Bwyd a Diod Cymru
Clwstwr Mêl
Food & Drink Wales
Honey Cluster

Cefndir

Nod y Clwstwr Mêl yw galluogi busnesau i greu swyddi a thwf economaidd cynaliadwy drwy gefnogi'r sector i ddatblygu drwy ddarparu cymorth penodol.

Bydd y clwstwr yn creu llwyfan ar gyfer gweithredu ar y cyd i nodi a datrys problemau cyffredin. Bydd hyn yn dwyn gwenynwyr â meddwl busnes ynghyd sydd ag uchelgais i ddatblygu ochr yn ochr â phartneriaid masnachol, y llywodraeth a phartneriaid academaidd. Mae'r clwstwr wedi ymrwymo i godi proffil a chynyddu cynhyrchiant mêl o Gymru.

Cwmpas y Clwstwr

Mae'r clwstwr yn darparu cymorth i oresgyn rhwystrau i dwf a hwyluso cyfleoedd i weithio gyda busnesau o'r un anian. Mae wedi'i anelu'n bennaf at gynhyrchwyr mêl ar raddfa llai sydd eisiau datblygu eu capasiti ymhellach.

Bydd rhaglen y clwstwr yn cynnwys:

- Busnesau gyda phrosiectau ar gyfleoedd datblygu allweddol
- Bydd rheolwr y clwstwr yn eich helpu i ddatblygu datrysiadau ar gyfer goresgyn rhwystrau i dwf sy'n cynnwys sefydliadau academaidd, cynhyrchwyr, y llywodraeth ac amrywiaeth o randdeiliaid
- Mentora arbenigol wedi'i deilwra.

Gweithgareddau Clwstwr

- Cyfnewid gwybodaeth rhwng cymheiriaid
- Digwyddiadau a gweithdai
- Cydweithredu mewn gweithgareddau masnachol
- Rhannu costau / adnoddau
- Ychwanegu gwerth
- Codi ymwybyddiaeth o gynhyrchu mêl lleol a rhanbarthol
- Busnesau sector preifat yn llywio'r agenda ymchwil
- Deall a mynd i mewn i farchnadoedd newydd
- Mynediad i ymchwil o'r radd flaenaf
- Treialu darpariaeth gwasanaeth newydd sy'n seiliedig ar nodi anghenion busnes.

Cysylltwch â ni

Am ragor o wybodaeth am y clwstwr hwn cysylltwch ac arweinydd y clwstwr:

Haf Wyn Hughes
clwstwrmelcymru@menterabusnes.co.uk
01745 770278 / 07984 522619

Bwyd a Diod Cymru
Clwstwr Maeth-Cymru

Food & Drink Wales
Nutri-Wales Cluster



Cefndir

Mae clwstwr Maeth-Cymru yn cysylltu cynhyrchwyr bwyd a diod, y byd academaidd a'r llywodraeth i ganolbwyntio ar ymchwil a datblygiad, arloesi, mewnwelediad a gwybodaeth, a thwf yn y gofod marchnad lle mae bwyd, iechyd, maeth a lles yn cydgyfarfod.

Mae'r clwstwr yn manteisio ar arbenigedd prifysgolion Cymru, iechyd cyhoeddus a'r canolfannau bwyd i ysgogi ymchwil a mewnwelediad cydweithredol, arloesi a datblygu cynnyrch, a mynediad at farchnadoedd newydd.

Cwmpas y Clwstwr

Mae aelodaeth y clwstwr yn agored i holl gynhyrchwyr bwyd a diod Cymru, y byd academaidd, canolfannau bwyd, a sefydliadau'r sector cyhoeddus sydd â diddordeb penodol mewn cynhyrchion bwyd, a'r berthynas rhwng bwyd, maeth ac iechyd.

Mae Maeth-Cymru yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Gwella manteision maethol bwyd
- Prosiectau bwyd ac amaeth-dechnoleg
- Effeithlonrwydd adnoddau a newid yn yr hinsawdd
- Bio-wyddoniaeth, gwyddorau bywyd ac iechyd drwy faeth
- Creu gwerth a chynaliadwyedd
- Datblygu cynhyrchion cadarn o ran maeth
- Maeth ar gyfer heneiddio'n iach.

Gweithgareddau Clwstwr

Bydd aelodau o Maeth-Cymru yn elwa ar:

- Gyngor ac arbenigedd ar ddatblygu strategaethau ymchwil a datblygu i gefnogi twf
- Mynediad at farchnad a dealltwriaeth a deallusrwydd technegol
- Mynediad at gyfleoedd cyllid drwy ffynonellau ariannu ymchwil a datblygu o Gymru, y DU ac yn rhyngwladol
- Cyfleoedd datblygu masnach
- Mynediad at gyngor technegol a rheoleiddio
- Mynediad i bartneriaid diwydiant, academaidd a phartneriaid iechyd cyhoeddus ar gyfer prosiectau cydweithredol (gan gynnwys cydweithio rhyngwladol) i ysgogi arloesi a datblygu cynnyrch newydd.

Cysylltwch â ni

Am ragor o wybodaeth am y clwstwr hwn cysylltwch ac arweinydd y clwstwr:

Louise Neilson
louise.neilson@bic-innovation.com
01656 861536 / 07817 853679

Bwyd a Diod Cymru
Clwstwr Bwyd Môr
Food & Drink Wales
Seafood Cluster

Cefndir

Mae'r Clwstwr Bwyd Môr a sefydlwyd yn 2015 yn canolbwyntio ar gamau gweithredu cydweithredol i nodi a datrys problemau cyffredin yn y diwydiant bwyd môr yng Nghymru. Mae'r clwstwr wedi dwyn amrywiaeth o bysgotwyr, gwerthwyr pysgod, casglwyr llaw a busnesau dyframaethu ynghyd. Yn ystod y cyfnod hwn mae'r clwstwr wedi cynorthwyo busnesau i ddatblygu a ffynnu, creu swyddi, manteisio ar farchnadoedd newydd a sicrhau busnes newydd.

Cwmpas y Clwstwr

Mae'r clwstwr yn darparu cymorth a chyngor i helpu busnesau bwyd môr i greu swyddi a datblygu twf economaidd cynaliadwy. Mae'n galluogi busnesau i ddatblygu gwybodaeth ac yn cynnig cyfleoedd i gydweithio a goresgyn rhwystrau i dwf, ynghyd ag archwilio cyfleoedd masnachol.

Mae'r clwstwr wedi'i anelu at fusnesau sy'n dymuno datblygu eu capasiti. Mae rhaglen y clwstwr yn cynnwys:

- Clwstwr o gwmnïau bwyd môr gyda phrosiectau a syniadau ar gyfer cyfleoedd datblygu allweddol
- Rheolwr clwstwr i'ch helpu i ddatblygu datrysiadau i oresgyn rhwystrau i dwf
- Defnyddio dull o ddarparu fframwaith ar gyfer arloesi sy'n cynnwys sefydliadau academaidd, cwmnïau ac amrywiaeth o randdeiliaid i feithrin gwelliannau yn y sylfaen wybodaeth a'r ddealltwriaeth am gyfleoedd busnes, gan atgyfnerthu arloesi ac arwain at dwf cynaliadwy.

Gweithgareddau Clwstwr

Mae gweithgareddau'r clwstwr yn cynnwys:

- Cyfnewid gwybodaeth rhwng cymheiriaid
- Digwyddiadau a gweithdai
- Hyfforddiant arbenigol
- Cymorth a chefnogaeth i ddatblygu busnes gan arbenigwyr yn y diwydiant a mentoriaid arbenigol
- Teithiau astudio
- Rhannu costau / adnoddau
- Sefydlu grwpiau diddordeb arbennig penodol
- Deall a mynd i mewn i farchnadoedd newydd
- Archwilio cyfleoedd masnach
- Ymchwil
- Mynediad at farchnadoedd newydd.

Cysylltwch â ni

Am ragor o wybodaeth am y clwstwr hwn cysylltwch ac arweinydd y clwstwr:

Sian Davies
clwstwrbwydmorcymru@menterabusnes.co.uk
01970 636565 / 07538 074260

Bwyd a Diod Cymru
Rhwydwaith Clwstwr

Food & Drink Wales
Cluster Network



llyw.cymru/bwydadiodcymru
@bwydadiodcymru

WEG121 03/2019